Tuag Adref

HYBU ANNIBYNIAETH
LLEIHAU DIBYNIAETH

Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Orllewin Cymru
North West Wales NHS Trust

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

Beth ydy Tuag Adref?

Mae Tuag Adref yn wasanaeth Gofal Canolraddol yng Ngwynedd, wedi ei seilio ar therapi, a'i fwriad yw pontio rhwng gwaith statudol a gwaith ataliol. Ei nod yw hybu annibyniaeth er mwyn lleihau dibyniaeth ar wasanaethau iechyd a/neu ofal cymdeithasol, a lleihau nifer y cleifion sydd angen sylw i'w hiechyd eto oherwydd eu bod yn methu ag ymdopi. Caiff hyn ei wneud drwy gynnig gwasanaeth adsefydlu a chefnogi priodol a dwys i gleifion yn eu cartrefi eu hunain, am gyfnod o hyd at 6 wythnos fel arfer, ond mwy os oes angen clinigol.

Nod y Gwasanaeth

"...y syniad ydy peidio â chael y cleifion allan o'r ysbyty'n fwy buan, ond eu rhwystro rhag mynd yn ôl"

"...cynorthwyo i gadw cleifion yn eu cartrefi eu hunain, gan fod mor annibynnol â phosib"

Amcanion

- Darparu gwasanaeth adsefydlu dwys gan weithio gyda cleifion a Gofalwyr Cartref neu ofalwyr anffurfiol, e.e. gŵr neu wraig.
- Gweithio gyda'r claf, gan ddefnyddio dull datrys problemau, i'w annog i wneud gweithgareddau bob dydd , e.e. ymolchi, gwisgo, paratoi bwyd a gweithgareddau hamdden.
- Gweithio gyda cleifion, gofalwyr a theuluoedd i ffurfio cynllun adsefydlu sy'n dangos blaenoriaethau'r claf.
- Cydlynu asiantaethau gofal er mwyn sicrhau bod y claf yn cael y gefnogaeth orau.
- Gweithio gyda cleifion i helpu efo'r cyfnod dros dro rhwng e.e. ysbyty a gartref, neu ofal preswyl a gartref fel bo'n briodol.
- Gweithio ar leihau'r gofal cartref wrth i'r claf ddod yn fwy annibynnol.

Pwy sy'n gymwys ar gyfer y gwasanaeth?

Nid yw'r ffaith fod claf yn cael ei gyfeirio at Tuag Adref yn golygu y caiff ei dderbyn yn awtomatig i'r cynllun. Dylid trafod pob cyfeiriad posib gyda'r Tîm Tuag Adref cyn gwneud cyfeiriad ffurfiol.

Therapyddion Galwedigaethol Tuag Adref sy'n gwneud y penderfyniad terfynol i dderbyn claf i'r cynllun, a bydd wedi ei seilio ar angen clinigol a gallu'r gwasanaeth i dderbyn y cyfeiriad.

Cynlluniwyd y gwasanaeth i helpu cleifion sydd yn 18 oed a drosodd:

- Sy'n byw yng Ngwynedd fel arfer.
- Sy'n debygol o fod yn annibynnol eto ar ôl adsefydlu ac yn ddigon brwdfrydig ynghylch hynny.
- Sy'n iach yn feddygol i gael eu rhyddhau o'r ysbyty (lle bo'n briodol).
- Sydd heb gael cymorth gan y Gwasanaethau Cymdeithasol cyn mynd i'r ysbyty neu sydd wedi cael y pecyn gofal lleiaf posib e.e. prif bryd neu siopa.
- Sy'n cael eu derbyn am ofal preswyl tymor byr, neu'n mynd i aros gyda pherthnasau ond sy'n debygol o fod yn gwbl annibynnol yn eu cartrefi eu hunain unwaith eto.

Sut mae'r gwasanaeth yn gweithio?

Mae cyfeiriadau priodol at y gwasanaeth yn cael eu derbyn oddi wrth Therapyddion Galwedigaethol, Gweithwyr Cymdeithasol ac eraill sydd wedi eu cymeradwyo i gyfeirio. Yna bydd Therapydd Galwedigaethol Tuag Adref yn gwneud asesiad, ac os caiff ei dderbyn i'r cynllun, bydd yn cytuno ar raglen adsefydlu gyda'r claf. Byddant yn cytuno hefyd ar becyn Gofal Cartref os yw hynny'n addas. Bydd y gofalwyr yma'n gweithio'n wahanol i'w rôl arferol. Yn hytrach na gwneud tasgau, bydd y Gofalwr Cartref yno i gefnogi'r claf i wneud yr hyn a gytunwyd yn y rhaglen adsefydlu.

Caiff y claf ei ail asesu'n rheolaidd er mwyn monitro cynnydd. Os oes dal angen cefnogaeth ar gleifion ar ddiwedd y cyfnod yma byddant yn cael eu cyfeirio ymlaen at yr asiantaeth briodol.

Tuag Adref

Sylwadau

Buasem yn gwerthfawrogi'ch barn a'ch sylwadau am y gwasanaeth.

Mwy o fanylion

Os hoffech chi fwy o wybodaeth neu roi sylwadau ffoniwch:

Tuag Adref (Arfon), Bodfan, Ysbyty Eryri, Caernarfon.
Ffôn: 01286 662726 Ffacs: 01286 662726

Tuag Adref (Dwyfor), Ysbyty Bryn Beryl, Pwllheli.
Ffôn: 01758 704311 Ffacs: 01758 701295

Tuag Adref (Meirionnydd), Ysbyty Dolgellau, Dolgellau.
Ffôn: 01341 422479 Ffacs: 01341 423684

www.gogleddorllewincymru.org
www.gwynedd.gov.uk

Uned Cysylltiadau Corfforaethol, Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Orllewin Cymru

LL/JJ/GC/GS/NHL/Medi 2005